

SMR 1: Parthau Perygl Nitradau (NVZ)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 2014

www.cymru.gov.uk

Mae'r Gyfarwydddeb Nitradau Ewropeaidd yn fesur amgylcheddol i ddiogelu dŵr rhag cael ei lygru gan nitradau o ffynonellau amaethyddol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr mewn ardaloedd dynodedig gadw at y rheolau a ddisgrifir yng Nghanllawiau a Gweithlyfr y Parthau Perygl Nitradau. Nod y mesurau yw lleihau llygredd nitradau o fewn yr ardaloedd dynodedig.

Mae Parthau Perygl Nitradau yn ddarnau o dir sy'n draenio i ddŵr daear neu ddŵr wyneb sy'n uchel mewn nitradau ar hyn o bryd, neu mewn perygl o fod felly. Mae tua 2.3% o dir Cymru wedi'i ddynodi'n NVZ. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru.

Y prif ofynion

- Cadw at y cyfnodau gwahardd tail organig a gwrtaith nitrogen artiffisial.
- Sicrhau bod digon o le i storio'r holl dail neu slyri da byw i ateb gofynion y cyfnodau gwahardd a'r rheolau cysylltiedig a amlinellir yng Nghanllawiau a Gweithlyfr yr NVZ.
- Sicrhau bod y systemau storio slyri a silwair yn ateb gofynion capasiti (gweler Canllawiau a Gweithlyfr yr NVZ), gwynwch, cynnal a chadw a diogelwch, eu bod wedi'u hadeiladu yn unol â'r safonau adeiladu perthnasol, a bod rheolau safle silwair mewn cae yn cael eu bodloni (gweler Canllawiau Rheoliadau SSAFO i Ffermwyr).
- Cadw at y rheolau ynghylch lleoli a storio tail sych.
- Cydymffurfio ag unrhyw rybuddion sy'n cael eu cyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gofyn am wneud gwelliannau i adeilad neu safle silwair ar y cae.
- Archwilio strwythurau yn rheolaidd a'u trwsio'n brydlon lle bo angen.
- Hysbysu CNC am unrhyw strwythur (seilo neu storfa slyri) sy'n newydd, wedi'i ehangu'n sylweddol neu ei ail-lunio'n sylweddol o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio'r strwythur am y tro cyntaf.
- Hysbysu CNC am y man lle bwriedir gwneud silwair ar y cae (ar dir agored) o leiaf 14 diwrnod cyn defnyddio'r safle am y tro cyntaf. Ystyried pob ffynhonnell nitrogen wrth gyfrif faint o nitrogen sydd ei angen ar y cnwd.
- Peidio â chaniatáu mwy na 170kg/ha o nitrogen o dail anifeiliaid ar holl dir y fferm, boed wedi'i wasgaru neu ei adael gan anifeiliaid pori, oni bai bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn llacio'r rheol.
- Peidio â gwasgaru mwy na 250kg/ha o nitrogen mewn deunydd organig mewn unrhyw le ar y fferm.
- Gwasgaru deunydd organig a gwrtaith mor gywir â phosibl ac mewn ffordd nad yw'n llygru cyrsiau dŵr (peidiwch â gwasgaru gwrtaith nitrogen artiffisial o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb, a thail organig o fewn 10 metr), gan roi ystyriaeth i'r canlynol: llethr, gorchudd tir, pa mor agos y mae dŵr wyneb, y tywydd, math o bridd a phresenoldeb draeniau.
- Gwasgaru slyri trwy ddefnyddio offer gwasgaru isel (llai na 4 metr o wyneb y tir).
- Rheoli gwrtaith nitrogen a thail organig, a chynhyrchu map risg.
- Cadw cofnodion fferm yn unol â Chanllawiau a Gweithlyfr yr NVZ am o leiaf 5 mlynedd.

Archwilio Caeau

- Gofalu'ch bod yn cadw at y rheolau NVZ.
- Gofalu'ch bod yn cadw at y rheolau SSAFO.
- Archwilio'ch cofnodion NVZ – cynlluniau nitrogen, cnydau, nifer y da byw, y defnydd o wrtaith/tail/slyri a map risg o'r caeau.
- Cadarnhau eich bod yn dilyn unrhyw gamau yn unol â rhybuddion sy'n cael eu cyhoeddi gan CNC.
- Asesu capasiti, gwytnwch, gwaith cynnal a chadw ac ardaloedd diogelwch (gan gynnwys y rhai ar gyfer gwneud silwair a storio silwair a slyri).
- Asesu trefn archwilio reolaidd y ffermwr (cynllun asesu a chofnodion, fel sy'n briodol ar gyfer y strwythur a'r rhannau) ac edrych am unrhyw arwydd o rwd, niwed neu ollwng. Peidiwch â mynd i mewn i'r tanciau sudd silwair – archwiliwch nhw o'r tu allan yn unig.

Arfer da

- Rhowch wybod i CNC cyn i chi gynllunio strwythur (seilo neu storfa slyri) newydd, un llawer mwy neu un wedi'i lunio'n wahanol, er mwyn sicrhau bod y strwythur yn cydymffurfio ac osgoi gwario ar ei addasu.
- Mynnwch gopïau o ganllawiau i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion.
- Dadansoddwch eich pridd a'ch tail yn rheolaidd a defnyddio'r canlyniadau i ddylanwadu ar eich cynlluniau gwrteithio.
- Darllenwch Weithlyfr y Ffermwr sy'n rhoi templed i'ch helpu i gwblhau'r cynllun, cofnodion a'r cyfrifiadau angenrheidiol. Cewch ei weld yn www.cymru.gov.uk.
- Rhannwch eich map o'r risg gyda chontractwyr.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Gweler y daflen 'Cysylltiadau Defnyddiol' yn y pecyn hwn